
GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

CYLCHLYTHYR 18

Medi 2016

O'R GADAIR:

Rydym yn parhau i chwilio am dai nenffyrch yng ngogledd ddwyrain Cymru ac felly yn croesawu unrhyw arweiniad y gall yr aelodau ei gynnig a'i anfon at Margaret. Teimlaf fod mwy nag a feddyliwn eto i'w darganfod. Cawsom hwb sylweddol yn ddiweddar iawn gan gyfraniadau hael a rhai grantiau annisgwyl. Llawer o ddiolch i'r cyfranwyr hyn. Gobeithiwn godi mwy o arian ddiwedd mis Hydref (Pnawn Sadwrn, 29 Hydref) pan fyddwn yn cynnal Ocsiwn Hen Bethau yng Nghanolfan Menai, gyferbyn â Waitrose ym Mhorthaethwy – manylion llawn i ddod. Buasem yn croesawu unrhyw gyfraniad o ddiddordeb gan aelodau, e.e. dodrefn, crochenwaith, llyfrau, darluniau ayyb o ddiddordeb Cymreig. Gallem eu casglu yma ym Mhlas Penmynydd ond i'r aelodau ddod â hwy yma yn ystod y tair wythnos gyntaf ym mis Hydref (01248 750752; richard@dmmwales.com). Yn olaf, ond yn dra phwysig, fe hoffwn ddiolch yn fawr i'n byddin o wirfoddolwyr am eu hymdrechion arbennig – rwy'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Richard Cuthbertson, Cadeirydd



Hen Golwyn

NEWYDDION DIWEDDARAF

Yn dilyn ein CBC ym Mehefin cawsom ddarlith gyhoeddus ardderchog gan Dr Shaun Evans yn trafod dylanwad y teulu Mostyn. Dosbarthwyd cofnodion y CBC i'r aelodau hynny y

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

NEWSLETTER 18

September 2016

FROM THE CHAIR:

We are continuing to search for cruck houses in NE Wales and would welcome any leads that members may know of – please send them on to Margaret. I rather suspect that there are far more than we think!! We have been greatly helped just recently by generous donations and some unexpected grants, very many thanks to all those concerned. We hope to raise more money at the end of October (Saturday afternoon, October 29th) when we are holding an Antiques Auction in the Menai Centre, opposite Waitrose in Menai Bridge – full details to follow. Any members who may be able to donate items of interest would be most welcome. It would be good if we could get some examples of furniture, pottery, books, pictures etc etc which have Welsh interest. I can accumulate them here at Plas Penmynydd if members could drop them off here during the first three weeks of October (01248 750752; richard@dmmwales.com). Last and most importantly I would really like to thank our army of volunteers for their wonderful efforts, they are very much appreciated.

Richard Cuthbertson, Chairman



Plas Uchaf, Glan Conwy (1570)

NEWS UPDATE

Following our June AGM we had an excellent public lecture from Dr Shaun Evans relating to the influence of the Mostyn family. AGM minutes have been circulated to those for

mae gennym eu cyfeiriad ebost, a gall eraill ofyn amdanynt. Mae DHDC wedi mynychu sawl digwyddiad a drefnwyd gan **Fforwm Treftadaeth GDDn Cymru** ac mae ein harddangosfa wedi denu sylw unigolion a mudiadau. Rhoddwyd nifer o sgyrsiau am Darganfod Hen Dai Cymreig ac rydym yn barod bob amser i siarad wrth fudiadau bach a mawr. Rydym yn dal i fod yn bartneriaid i **Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru** a bu grŵp yn ddiweddar yn treulio diwrnod yn ymchwilio dogfennau yn eu swyddfeydd newydd.

Prosiect 2016 Gogledd Conwy: Nid oedd y coed yn y rhan fwyaf o'r tai a aseswyd ym Mehefin yn addas i'w coed-dyddio, ond rhoddodd y tair sampl ddyddiadau cwmpo i ni: Plas yn Trofarth (1504-29); Plas Uchaf, Glan Conwy (1570) a Hen Wrych (1590-1605). Rydym yn awr wedi trefnu fod manylion pensaernïol y tai hyn, ac o bosib rhai tai eraill, yn cael eu cofnodi. Yn y cyfamser rydym yn dal i bartneru aelodau Cymdeithas Hanes Llanelian a Betws-y-n-Rhos a rhai perchenogion tai eraill i ymchwilio i hanes tai lleol. Croeso i bawb i **NOSON AGORED am 7yh ar 20 Medi yn Neuadd Betws-y-n-Rhos** i ddarganfod mwy. Cydnabyddwn yn ddiolchgar y grantiau at y prosiect hwn gan Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr ac Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn Jones; rydym hefyd yn ddiolchgar i bobl leol am eu hymrwymiad parhaus.



Plas yn Trofarth (1504-29)

whom we have email addresses and can be requested by others. DOWH has attended several events arranged by the **NE Wales Heritage Forum** and our display has attracted interest from individuals and organisations. Numerous talks about Discovering Old Welsh Houses have been given and we are always willing to speak to small or large organisations. We continue to partner with the **Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales** and a group recently spent a day researching documents in their new offices.

North Conwy 2016 Project: Timbers in most of the houses assessed in June were not suitable for dendrochronology, but the three sampled all yielded tree felling dates: Plas yn Trofarth (1504-29); Plas Uchaf, Glan Conwy (1570) and Hen Wrych (1590-1605). We have now arranged for detailed architectural recording to be undertaken in these houses and possibly in others. Meanwhile we continue to partner with members of the Llanelian and Betws yn Rhos History Society and other house owners in researching local house histories. All are welcome to an **OPEN EVENING at 7pm on 20th September in Neuadd Betws yn Rhos** to find out more. We gratefully acknowledge grants towards this project from the Gwynt y Mor Community Fund and the Gaynor Cemlyn Jones Trust; we also thank local people for their continuing involvement.



Hen Wrych (1590-1605)

Prosiect Gogledd Ddwyrain Cymru: Ym Medi gobeithiwn gychwyn ein gweithgareddau â chymunedau lleol mewn rhannau o Siroedd Dinbych a Fflint. Gobeithiwn ddatblygu diddordeb lleol, a darganfod, dyddio, cofnodi ac ymchwilio llawer mwy o dai cyn 1700, yn arbennig adeiladau fframiau nenfforch a choed. Cofiwch ddweud wrthym am unrhyw grŵp a allasai fod â diddordeb neu am unrhyw hen dŷ y gwyddoch amdano. Ni fuom yn llwyddiannus i dderbyn grant gan Cadwyn Clwyd ond bellach mae gennym dros £12,000 o ffynonellau eraill. Rydym yn hynod ddiolchgar am y grantiau gan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE BCDD), Cronfa Phillips Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain; Grŵp Pensaernïaeth Werinol, Cronfa Marc Fitch a Chronfa (UDA) Woodtiger.

North East Wales Project: In September we plan to start our activities with local communities in parts of Denbighshire and Flintshire. We hope to develop local interest, and discover, date, record and research many more pre-1700 houses, especially cruck- and timber-framed buildings. Please do tell us about any group which might like to get involved, or of any old houses you know. We were not successful with our grant bid to Cadwyn Clwyd but we now have over £12,000 from other sources. We gratefully acknowledge grants from the Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty (CRDV AONB), Society of Antiquaries of London – Phillips Fund; Vernacular Architecture Group, Marc Fitch Fund and the Woodtiger (USA) Fund.

Rydym yn croesawu ein **Haelod Proffesiynol** cyntaf, sef y Penseiri, Cynllunwyr ac Ymgynghorwyr adeiladau hanesyddol Purcell.

We welcome our first **Professional Member**, the Architects, designers and historic building consultants Purcell.

Ein diolch cywiraf i'r aelodau cangen niferus sy'n brysur yn ymchwilio agweddau gwahanol yr hen dai sydd yn eu hardal; gobeithiwn y bydd cronfa ar gael yn fuan i goed-ddyddio rhai enghreifftiau arbennig iawn ar draws gogledd Cymru.

Cylchlythyr: Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar grant a gafwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri tuag at Gylchlythryau 2016.

DIGWYDDIADAU GRŴP HYDREF 2016

Archebwch yn fuan drwy Wally: Wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622. Cost £5 (aelodau); £7 (eraill) os na ddwedir yn wahanol. Bydd manylion llawn yn cael eu hanfon at bawb sydd wedi archebu. **Mercher 14 Medi** 2 yp: Ymweliad drwy ganiatâd caredig perchenogion Llwyn y Cynfal, Rhyd-y-main, Dolgellau; tŷ sawl llawr a goed-ddyddiwyd yn 1587 ac a adferwyd. Mwyafrif 15.

Sad 22 Hydref 2 yp: Sgwrs ddarluniadol 'Tai Cuddiedig Gwynedd 1000 – 1800' gan Simon Simcox, arolygydd adeiladu a hanesydd lleol yng Nghanolfan Gymunedol Capel Curig. Bydd raffl a'r wobwr yw llyfr diweddar Simon.

Sad 29 Hydref Ocsiwn Hen Bethau yng Nghanolfan Menai gyferbyn â Waitrose ym Mhorthaethwy – manylion llawn i ddilyn.

Sad 19 Tach 2yp Sgwrs ddarluniadol 'Gwaith Achos CAP(CBA) yng Nghymru' gan Cy Griffiths, Gweithiwr Achos Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Cyngor Archeoleg Prydain, yng Nghanolfan Gymdeithasol Capel Curig.

Dim cyfarfod yn **Rhagfyr** gan fod llawer o'r canghennau yn cynnal digwyddiadau'r Nadolig.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer @ £2.

CANGEN MÔN - ARFON

Cyswllt: Peter Masters: datingoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Gwen 16 Medi** Felin Moelfre, Llanaelhaearn am 2yp. Ffoniwch Peter am y cyfarfodydd eraill.

CANGEN CONWY

Cyswllt: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. Canslwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer **Mawrth 13 Medi** ac yn awr fe'i cynhelir ar **Fawrth 20 Medi** 7.30yh – cyfarfod agored anffurfiol yn neuadd bentref Betws-y-n-Rhos i egluro gwaith y Grŵp Darganfod Hen Dai Cymreig ac i helpu unrhyw un sy'n awyddus i chwilio i hanes ei gartref. **Mawrth 4 Hyd** Cyfarfod cangen i drafod hanesion diweddar tai yng Ngogledd Conwy – cysylltwch â Tony am fanylion lleoliad.

CANGEN SIR DDINBYCH

Cyswllt: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01450 440427. **Gwen 16 Medi** 2 yp Cyfarfod yn nhŷ G19 Margaret a Wally Barr, Gwespyr, Treffynnon. **Merch 12 Hyd** 7 yh Cyfarfod ym Mryn Berllan, Cynwyd (hen dŷ ffrâm goed Elisabethaidd). **Gwen 25 Tach** 2 yp yn Ucheldre: Cyfarfod Diweddarau a Chynllunio. **Gwen 9 Rhag** 12 hanner dydd – cymdeithasu Nadoligaidd yn Hostel Ieuenctid Cynwyd. Tua diwedd **Ionawr** bydd Diwrnod o Gyflwyno a Datblygu yn Archifau Rhuthun – manylion i ddilyn.

CANGEN MEIRIONNYDD

Cyswllt: John Townsend: john@thetownsend.org.uk 01341 430262. **Llun 19 Medi** Ymweliad i Dyddyn Sais, Trawsfynydd

Thank you to the many branch members who are busy researching various aspects of the old houses in their own area; we hope that there may soon be some funding for dendrochronology in very special cases across north Wales.

Newsletter: We gratefully acknowledge a grant towards the 2016 Newsletters from the Snowdonia National Park.

2016 AUTUMN GROUP EVENTS

Book early with Wally: Wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622. Cost £5 (members); £7 (non-members) unless otherwise stated. Full details will be sent to those who have booked. **Wed 14th Sept** 2 pm Visit by kind permission of the owners to Llwyn y Cynfal, Rhydymain, Dolgellau; a restored storeyed house dendro-dated 1587. Max 15.

Sat 22nd Oct 2 pm Illustrated talk 'The Hidden Houses of Gwynedd 1000 – 1800' by Simon Simcox, building surveyor and local historian, in the Capel Curig Community Centre. There will be a raffle with Simon's recent book as the prize.

Sat 29th Oct Antiques Auction in the Menai Centre, opposite Waitrose in Menai Bridge – full details to follow.

Sat 19th Nov 2 pm Illustrated talk 'CBA Casework in Wales' by Cy Griffiths, the Council for British Archaeology's Listed Building Caseworker for Wales, in the Capel Curig Community Centre.

No meeting in **December** as most branches hold Christmas events.

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2.

ANGLESEY-CAERNARFONSHIRE BRANCH

Rep: Peter Masters: datingoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Fri 16th Sept** Felin Moelfre, Llanaelhaearn at 2 pm. Ring Peter about other meetings.

CONWY BRANCH

Contact: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. The meeting planned for **Tues 13th Sept** has been cancelled and replaced by **Tues 20th Sept** 7.30pm – Informal open meeting at Betws yn Rhos village hall to explain the work of the Discovering Old Welsh Houses Group and help anyone get started with their own house history. **Tues 4th Oct** Branch meeting to discuss recent house histories in North Conwy – contact Tony for details of venue.

DENBIGHSHIRE BRANCH

Contact: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01450 440427. **Fri 16th Sept** 2 pm Meeting at Margaret and Wally Barr's C19 house, Gwespyr, Holywell. **Weds 12th Oct** 7 pm Meeting at Bryn Berllan, Cynwyd (former timber-framed Elizabethan house). **Fri 25th Nov** 2 pm at Ucheldre: Update and Planning Meeting. **Fri 9th Dec** 12 noon Christmas get-together at Cynwyd Youth Hostel. Towards the end of **January** there will be an Introduction and Progressing Day at Ruthin Archives – details to follow.

MERIONETH BRANCH

Contact: John Townsend: john@thetownsend.org.uk 01341 430262. **Mon 19th Sept** Visit to Tyddyn Sais, Trawsfynydd

(Tŷ Eryri dyddiedig 1547-57). Cyfarfod am 1.45 ym ar droad Glan Aber oddi ar yr A470 i'r de o Drawsffynydd. Cyfarfodydd **Hydref** a **Thachwedd** eto i'w trefnu – gwylwch y wefan am fanylion.

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn yn eiddo preifat.

COFIWCH YMWELD â discoveringgoldwelshhouses.co.uk i weld adroddiadau blog o'r holl ddiwyddiadau diweddar ac i edrych ar ein llyfrgell gynyddol.

OS YR YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond eto ddim yn aelod, pam na wnewch ystyried ymuno â'r Grŵp? Ysgrifenyddes Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson zoehenderson123@btinternet.com 01824 704404. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, Ysgrifenyddes brynbedd1@gmail.com 01766 890550.

LAWER O DDIOLCH i Gangen Sir Dinbych am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

CHWILIO AM CYMER YN EDEIRNION

Wedi symud yn 1977 i hen ffermdy Hafod-y-calch cefais fy swyno gan straeon lleol am Farwniaid hynafol Cymer, disgynyddion Madog ap Maredudd, y Tywysog Cymreig olaf i deyrnasu yn yr hen Bowys. Roedd yn gyffrous i ddarganfod eu bod wedi trigo unwaith nid yn unig yn nhŷ neuadd ganoloesol sbennydd Plas Uchaf, ond hefyd ym mhlasty gwych Gwerclas – y ddau o fewn hanner milltir i Hafod, lle roedd eu cymdogion agosaf! Mae f'ymchwil GDHDC hyd yn hyn wedi cynhyrchu hanesion y tri thŷ, ac fe'u ceir yn [Adran Sir Ddinbych o'n gwefan](#) (er fod Cymer yn rhan o Sir Feirionnydd hyd at 1974).

Cafodd Madog mab Owain Brogontyn (neu Frogyntyn) diroedd yn Edeirnion a Dinmael, ac yna rhanwyd tiroedd Owain rhwng ei dri mab Bleddyn, Gruffydd ac Iorwerth. Bu rhannu pellach yn fodd o wneud mab Iorwerth, Gruffydd, yn Farwn Cymer – yr ardal o fewn plwyf blaenorol Llangar sy'n gorwedd lle mae afonydd Alwen a Dyfrdwy yn cydlifo. Mae'n dal yn ddirgelwch ble yn union roedd y barwniaid cynharaf yn byw, ond mae arfbais ar ffasad 1767 Gwerclas yn cyfeirio at ddiwyddiadau cynnar yn eu hanes. Yn 1282 roedd Barwn Cymer, Gruffydd, yn un o Arglwyddi Iâl ac Edeirnion a ymosododd ar Groesoswallt, a dwed rhai fod y tri phen a bortreadir yn bennau Saeson a laddwyd yn yr ymosodiad – er y gallant yn wir fod yn cynrychioli achau cynharach!

Erbyn y 15 ganrif credir fod Barwniaid Cymer yn byw yn nhŷ neuadd nenfforch ac ystlysg sbennydd Plas Uchaf, sydd â tho o goed anghyffredin o addurniedig ac wedi ei goeddyddio i 1435. Ond erbyn 1600 roeddynt wedi symud i leoliad llawer helaethach yng Ngwerclas. Credir fod eu cartref cyntaf yno wedi ei adeiladu gan Hugh ap William, 11eg Barwn Cymer. Magodd ei feibion ef y traddodiad Seisnig o gyfenwau a chael eu cydnabod fel Hughesiaid o Gwerclas.

Er fod y rhan fwyaf o'r hen adeilad wedi ei ddadleoli gan y tŷ a adeiladwyd yn 1767 gan Hugh Hughes Lloyd, cawn rhyw

(Snowdonia house dated 1547-57). Meet at 1.45 pm at the Glan Aber turning off the A470 south of Trawsfynydd. **Oct** and **Nov** meetings to be arranged – watch the website for details.

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private property and are **NOT** open to the public.

DO VISIT <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk/> to see blog accounts of all recent events and to look at our growing library.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson zoehenderson123@btinternet.com 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, Secretary brynbedd1@gmail.com 01766 890550.

MANY THANKS to the Denbighshire Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

A QUEST FOR CYMER IN EDEYRNION

Upon moving in 1977 to the old farmhouse of Hafod-y-calch I became fascinated by local tales of the ancient Barons of Cymer, descendants of Madog ap Maredudd who was the last Welsh Prince to rule ancient Powys. How exciting it was to find they had once inhabited not only the splendid medieval hall house of Plas Uchaf, but also the magnificent mansion of Gwerclas – both within half a mile of Hafod and actually its nearest neighbours! My DOWHG research so far has produced histories for all three houses, now available in the [Denbighshire section of our website](#) (though Cymer was part of Merionethshire until 1974).



Arfau ar ffasad 1767 Gwerclas / Arms on the 1767 facade of Gwerclas (Jenny Lees)

syniad o fywyd yno o Lyfr Memorandwm (1662-1674) yr ail Humffrey Hughes ac o'i Ewyllys hynod fanwl a'i Restr Eiddo 1682. Roedd Gwerclas ymysg y llysoedd barwnol a roddai letygarwch i'r beirdd yn gyfnewid am adloniant a chlod; mae rhai dogfennau hŷn yn cyfeirio at y lle fel *Gwerlleis* ac mae cerdd gan y bardd Sion Phylip yn cyfeirio at Gwerclas fel *Ilys Werclys*.



Coed to godidog Plas Uchaf / The magnificent roof timbers of Plas Uchaf (Jenny Lees)

Rydym hefyd yn ffodus o fod â ffolder o lythyrau gwreiddiol a sgrifennwyd yn y 1770au gan Farwnes Gwerclas Margaret Lloyd at Elizabeth Baker, ffrind Hugh Vaughan o *Hengwrt* a *Nannau*, yr oedd ei berthnasau yn byw yn *Rhug*. Mae eu gohebiaeth bersonol yn trafod pob agwedd o fywyd, ac mae detholiadau ohonynt yn ymddangos yn y mynegeion i hanes tŷ Gwerclas o'm heiddo i. Rwyf yn ddyledus i fy nghydweithwraig GDHDC Pam Buttrey, am ddod â'r llythyrau i'm sylw.

Mae'n ymddangos fod Hafod-y-calch, a adnabyddir yn hanesyddol fel *Hafod* neu *Havod*, wedi bod am gryn amser â rhywfaint o arwyddocâd lleol. Darganfuwyd gwaith ar y wyneb mewn chwarel ganoloesol yn union i'r de o Hafod yn y 1950au gan y daearegwr E. Neaverson, ac mae Hafod yn gorwedd o fewn 'allgrai' o bwysigrwydd daearegol mewn calchfaen Carbonifferaidd. Sylwodd Richard Suggett fod safle amlwg ochr isa'r tŷ heb amheuaeth "yn ganoloesol ei darddiad" a bod gan yr adeilad unwaith ei gôr ei hun ar gyfer uchelwyr yn eglwys Llangar. Yn 1704 roedd y côr yn eiddo i Roger Salesbury o *Rhug*, wedi ei etifeddu ar ôl ei dad William Salesbury, a chyn hynny roedd yn eiddo i deulu Meurig (Meyrick) o *Ucheldre*, ger Corwen. Felly, rhaid fod

Madog's son Owain Brogontyn (or Brogyntyn) was granted lands in Edeyrnion and Dinmael, then Owain's lands were divided between his three sons Bleddyn, Gruffydd and Iorwerth. Further sharing made Iorwerth's son Gruffydd the Baron of *Cymer* – the area within the former parish of Llangar that lies around the confluence of the Alwen and Dyfrdwy. Exactly where the earliest Barons lived is still a mystery, but a coat of arms on the 1767 facade of Gwerclas alludes to early events in their history. In 1282 Baron of *Cymer* Gruffydd was one of the Lords of Ial and Edeyrnion who raided Oswestry, and the three heads depicted are said by some to be those of Englishmen killed in the raid – though they may well represent an earlier pedigree!

By the 15th century the *Cymer* Barons are believed to have been living in the magnificent cruck and aisle truss hall house of *Plas Uchaf*, which has unusually ornate roof timbers and a dendrochronology felling date of 1435. But by around 1600 they had moved to a far more spacious location at *Gwerclas*. Their first home there is thought to have been built by 11th Baron of *Cymer* Hugh ap William, whose sons adopted the English tradition of surnames and became known as the Hughes of *Gwerclas*.

Although most of the older dwelling was replaced by the 1767 house built by Hugh Hughes Lloyd, we can get some idea of life there from the Memorandum Book (1662-1674) of the second Humffrey Hughes and from his very detailed 1682 Will and Inventory. *Gwerclas* was among the baronial courts providing hospitality to the bards in exchange for entertainment and praise; some older documents refer to it as *Gwerlleis* and a 1611 poem by the bard Sion Phylip refers to *Gwerclas* as *Ilys Werclys*.

We are also lucky to have a folder of original letters written in the 1770s by Baroness of *Gwerclas* Margaret Lloyd to Elizabeth Baker, a friend of Hugh Vaughan of *Hengwrt* and *Nannau* whose relations were living at *Rhug*. Their intimate correspondence covers every aspect of life, and excerpts appear in the appendices to my *Gwerclas* house history. I am indebted to my DOWHG colleague Pam Buttrey for bringing the letters to my attention.



Ffasâd y tŷ a adeiladwyd gan Hugh Hughes Lloyd yng Ngwerclas / Façade of the house built by Hugh Hughes Lloyd at Gwerclas

rhywbeth wedi gwneud Hafod yn lle gwerth ei gael gan deuluoedd o dirfeddianwyr yn Edeirnion, a hwyrach y down rhyw ddydd ar draws rhywbeth megis cytundeb priodas neu fod yr Hafod wedi cael ei ddefnyddio fel tŷ agweddi.



Hafod-y-calch yn dangos y cefn law-lllethr y tu ôl i'r asgell Sioraidd / showing downslope-sited rear behind Georgian wing (Jenny Lees)

Yn niwedd yr G18 a dechrau'r G19 cafodd Hafod asgell Sioraidd ddwyreiniol eang, a mwy o adeiladau fferm helaeth. Nid ydym yn sicr pwy gyllidodd hyn ond roedd rhyw John Williams, *Bonheddwr*, a fu farw yn 1777 yn yr Hafod mewn amgylchiadau hynod o gefnog, ac roedd yn derbyn incwm o ddegwm *Ficerol* plwyf Corwen ac fe'i rhestrwyd fel *bragwr* pan gladdwyd ef yno.

Erbyn 1824 fe ddisbyddwyd ffortiwn Hughes Lloyds o Gwerclas drwy gyfres o achosion llys yn cynnwys troseddwyd o Lundain ac etifedd anghyfreithlon, a gwerthwyd stad Gwerclas, yn bennaf i Rhug. Mae'r Catalog Arwerthu a'r Rhestr Eiddo yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am yr ardal leol, gan fod daliadau Gwerclas wedi amgylchynu y rhan fwyaf o bentref Cynwyd a'i felinau, yn ychwanegol at nifer o ffermydd a bythynnod lleol.

Erbyn diwedd y G19 fe wnaeth ehangu pellach gan ystad Rhug, Hafod-y-calch yn dŷ fferm Fictoriaidd sylweddol iawn. Daliodd i fod yn fferm waith hyd at ddiwedd 1960au, pan ddifrodwyd yn ddifrifol y rhan fwyaf o adeiladau'r fferm wrth losgi'n fwiadol dai allan tair fferm leol. Ond mae Hafod, Gwerclas a Phlas Uchaf yn awr i gyd yn adeiladau rhestredig a'u hadferiad wedi parhau, gan warchod yn ofalus yr arweddion gwreiddiol. (Rhoddir manylion pellach a chyfeiriadaeth helaeth yn hanesion fy nhai ar gyfer pob eiddo yn <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk/library-h/house-history.html>.)

Jenny Lees, Sir Ddinbych

Hafod-y-calch, known historically as *Hafod* or *Havod*, seems to have long been a place of some local significance. Surface workings of a medieval quarry were found just to the south of Hafod in the 1950s by geologist E. Neaverson and Hafod lies within a geologically important "outlier" of Carboniferous limestone. Richard Suggett has observed that the house's marked downslope siting is "unmistakeably medieval in origin" and the dwelling once had its own gentry pew in Llangar church. In 1704 the pew belonged to Roger Salesbury of Rhug, inherited from his father William Salesbury, and before that it was owned by the Meyrick family of *Ucheldre*, near Corwen. So something must have made Hafod an important acquisition for land-owning families of Edeyrnion, and perhaps we will eventually discover something such as a marriage settlement or Hafod's use as a dower house?

In the late 18th or early 19th century Hafod acquired an extensive Georgian east wing and further extensive farm buildings. We are not sure who financed this but a John Williams, *Gentleman*, who died in 1777 at Hafod in very affluent circumstances, owned income from the *Vicarial* tithes of Corwen parish and was listed when buried there as a *maltster*.

By 1824 the fortunes of the Hughes Lloyds of Gwerclas were drained by a series of court cases involving London criminals and an illegitimate heir and Gwerclas estate was sold, mostly to Rhug. The Sale Catalogue and Schedule is a valuable source of information about the local area, as the Gwerclas holdings had encompassed much of the village of Cynwyd and its mills, in addition to numerous local farms and cottages.

By the end of the 19th century further extensions by Rhug estate made Hafod-y-calch into a very substantial Victorian farmhouse. It continued as a working farm until the late 1960s, when an arson attack on the outbuildings of three local farms severely damaged most of the farm buildings. But Hafod, Gwerclas and Plas Uchaf are now all Listed buildings whose restoration has continued with careful retention of original features. (Further details and extensive references are given in my house histories for each property at: <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk/library-h/house-history.html>.)

Jenny Lees, Denbighshire

MARC FITCH FUND



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

